NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon · The Teachers' Union

Briff

# Ail-ddychmygu addysg yng Nghymru: Diwygio'r flwyddyn ysgol a'r diwrnod ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud newidiadau i'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. Deilliodd hyn o faniffesto'r Blaid Lafur a Chytundeb Cydweithrediad Llafur a Phlaid, sy'n datgan:

> *'i leihau anghydraddoldebau addysgol a chefnogi lles dysgwyr a staff, byddwn yn ceisio diwygio dyddiadau tymhorau ysgol yn radical i'w gwneud yn fwy cydnaws â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth.'*

Ym mis Rhagfyr 201, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o delerau ac amodau athrawon ysgol yn Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr (Medi 2018). Yn yr adroddiad dywedodd y panel adolygu: 'mae'n bryd meddwl o'r newydd am sut mae addysg yn gweithio i ddisgyblion, i'w teuluoedd ac i athrawon'

Penodwyd Panel Arbenigol gan Lywodraeth Cymru yn 2019 i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu nifer o holiaduron, a grëwyd gan Beaufort Research, ar gyfer athrawon, disgyblion a rhieni, yn ogystal â chynrychiolwyr gofal plant, gwasanaethau iechyd a thwristiaeth a thrafnidiaeth, er mwyn casglu barn ar strwythur y flwyddyn ysgol. Mae hefyd yn bodoli ar ffurf peilot dros newidiadau i'r diwrnod ysgol mewn nifer fach o ysgolion.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad Tystiolaeth Brys o'r enw, *Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgol amgen: adolygiad o dystiolaeth*. Archwiliodd yr asesiad effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol, gan gynnwys:

- effeithiau ar ddysgu;
- iechyd a lles plant;
- darparu gofal cofleidiol;
- bywyd teulu; a
- effeithiau cymdeithasol eraill.

Canfuwyd bod tystiolaeth mewn perthynas â newid y flwyddyn ysgol yn 'gymysg ac amhendant'.

## BARN NASUWT

Mae materion ynglyn â newidiadau i'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol yn hynod gymhleth. Mae NASUWT yn pryderu nad oes tystiolaeth y byddai unrhyw newid yn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

Nid yw trafodaethau ar newid patrwm y termau yn newydd. Maent wedi dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r ddadl reolaidd hon, yn ddieithriad, yn ail-adrodd dadleuon sydd wedi eu profi a'u gwrthod.

Yn gynnar yn yr 1980au, cynullwyd gweithgor cenedlaethol, yn cynnwys cyflogwyr, undebau llafur a chynrychiolwyr o ysgolion annibynnol, i roi ystyriaeth fanwl i wahanol opsiynau i newid y flwyddyn dri thymor. Ym mis Ionawr 2000, sefydlodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) Gomisiwn ar drefniadaeth y flwyddyn ysgol. Daeth y ddau i ben heb unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r flwyddyn ysgol.

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles, yn y Cyfarfod Llawn yn y Cynulliad: *""Rydym wedi mynd yn rhy hir heb gael trafodaeth iawn ar y mater hwn."*

Mae llawer o ddarpar athrawon ac athrawon presennol yn dweud bod gwyliau hir yr haf yn ffactor pwysig ym mhatrymau gwaith athrawon. Gallai newid hyn waethygu'r problemau recriwtio a chadw staff.

Mae NASUWT wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiad y mater hwn os nad yw'n golygu ymgynghori â'r undebau addysg.

Mae NASUWT hefyd wedi codi pryderon gyda'r Gweinidog nad oedd unrhyw sail resymegol glir yn arolwg Beaufort, ynghyd â chwestiynau amlwg arweiniol, nad oedd yn rhoi'r cyfle i'r rhai a gymerodd ran ddewis cadw'r sefyllfa bresennol. Arweiniodd hyn at ragfarn a chanlyniadau gwyddonol ansicr.

Mae NASUWT bellach yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Sicrhawyd yr Undeb ein bod gryn amser oddi wrth ymgynghoriad ffurfiol ac fod peidio a newid yn parhau fel opsiwn.

Mae llwyth gwaith athrawon wedi bod yn bryder ers tro ac mae'r arolygon a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg wedi dangos bod athrawon eisoes yn gweithio oriau annerbyniol o hir a'u bod dan straen difrifol.

Mae'r cynlluniau peilot sydd ar y gweill i ymestyn y diwrnod ysgol yn peri pryder ac, er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd nad yw'r rhain yn ymwneud â newid amodau athrawon, ychydig iawn o reolaeth sydd ganddi dros yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion. Mae NASUWT yn arbennig o bryderus ynghylch y pwysau y gellir ei roi ar athrawon ifanc neu athrawon sydd newydd gymhwyso ac ar rheini ar gontractau dros dro. Mae NASUWT hefyd wedi codi'r pwynt gyda'r Gweinidog, er bod Rheolaeth Leol ar Ysgolion (LMS) yn bodoli ar ei ffurf bresennol, ychydig iawn o reolaeth sydd ganddo dros sut mae'r diwygiadau'n effeithio ar amodau gwaith athrawon.

Mae'r Undeb yn haeru y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar fater gofal plant fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r NASUWT hefyd yn credu mai dyma'r amser anghywir i ystyried diwygiadau enfawr o'r fath. Mae athrawon eisoes yn wynebu cyfnod o adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws, paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd a goblygiadau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg.

## CHWALU MYTHAU A CHAMWYBODAETH

Mae'r sawl sy'n cefnogi newid i'r patrwm tymhorau sefydledig yn defnyddio ystod o ddadleuon i gyfiawnhau eu cynigion. Mae llawer o'r rhain yn seiliedig ar fythau a chamwybodaeth.

Un ddadl yw bod tri thymor, gyda gwyliau haf hir, yn niweidiol yn addysgol. Honnir fod plant yn anghofio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn egwyl mor hir. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn.

Nododd adolygiad gan Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA), fod llawer o'r astudiaethau a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau lleihau hyd gwyliau'r haf ar y sail uchod wedi'u gosod o fewn cyd-destun arferion yn yr Unol Daleithiau lle mae ysgolion yn cau am dri mis yn yr haf.

Mae ysgolion yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cael eu lled ystyried fel rhai sydd â safonau uchel, yn cael egwyl o wyth wythnos yn cychwyn ym mis Gorffennaf. Fel arfer mae gan ysgolion annibynnol flociau hirach o wyliau nag ysgolion gwladol.

Yr ystod fwyaf cyffredin yn nifer y diwrnodau ysgol yw rhwng 170 a 190 ar draws Ewrop. Mae hyd gwyliau'r haf yn amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd, o chwe wythnos yn Länder yr Almaen, yr Iseldiroedd, y Deyrnas Unedig a Liechtenstein, hyd at 13 wythnos yn Latfia, rhwng 12 a 14 wythnos yn yr Eidal a Phortiwgal, a hyd yn oed 15 wythnos yn Albania a Bwlgaria. Mae hyd gwyliau haf yng Nghymru ymhlith y byrraf yn Ewrop.

Mae llawer o'r gwledydd sydd â gwyliau haf hirach ymhlith y rhai sy'n aml yn cael eu hystyried yn fodelau i Gymru eu dilyn. Y casgliad amlwg yw nad oes unrhyw gyfiawnhad dros gwtogi hyd gwyliau'r haf fel modd o wella canlyniadau addysgol.

Gwnaeth y Gweinidog Addysg yr honiad hwn hefyd yn y Cyfarfod Llawn:

> *Gall rhaglenni fel y treialon hyn, sy'n darparu sesiynau ychwanegol ysgogol ac sy'n cefnogi dysgwyr i ailafael mewn dysgu, gael mwy o effaith ar gyrhaeddiad na'r rhai sydd â ffocws academaidd yn unig.'*

Ni chanfu Asesiad Tystiolaeth Brys Llywodraeth Cymru unrhyw dystiolaeth i gefnogi newidiadau i'r flwyddyn ysgol neu ymestyn y diwrnod ysgol. Canfuwyd:

- 'ni chafodd blynyddoedd ysgol estynedig effaith gadarnhaol ar gyflawniad;
- ni chynhyrchodd rhaglenni ysgolion haf effeithiau cadarnhaol ar ddeilliannau cymdeithasol ac emosiynol i blant;
- nid oedd addysg gydol y flwyddyn na darpariaeth gwyliau'r haf wedi lleihau'r bwlch cyrhaeddiad yn sylweddol;

- yr arweiniodd blynyddoedd ysgol estynedig at effeithiau negyddol ar ymddygiadau myfyrwyr;
- y cafwyd effeithiau economaidd negyddol bach (ond arwyddocaol) gan addysg gydol y flwyddyn; a
- anhawster dod o hyd i staff cymwys a fyddai'n gweithio dros gyfnod yr haf fel y rhwystr mwyaf cyffredin i ddarparu blwyddyn ysgol estynedig'.

Mae llawer o bwyslais wedi ei roi ar yr honiad y bydd newid i batrwm y flwyddyn ysgol yn lleddfu straen athrawon. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

Gall newid roi'r cyfle i athrawon gymryd gwyliau y tu allan i'r cyfnodau brig traddodiadol. Mae tystiolaeth o'r Alban a Gogledd Iwerddon yn dangos bod cwmnïau gwyliau'n newid yr hyn a ystyrir yn 'gyfnodau brig' i gyd-fynd â'r patrwm cyffredinol.

Man cychwyn cyffredin i eiriolwyr newid i'r flwyddyn academaidd gyfredol yw nad oes gan y system bresennol unrhyw sail addysgol a'i bod yn tarddu o batrwm y flwyddyn amaethyddol, er mwyn hwyluso plant i helpu gyda'r cynhaeaf. Mae'r honiad hwn yn amlwg yn anwiredd. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn cadarnhau mai mis Medi/Hydref yw'r prif gyfnod cynhaeaf, gan ddod yn raddol yn ddiweddarach ymhellach i'r gogledd. Nid yw'r patrwm hwn wedi newid yn sylweddol ers cannoedd o flynyddoedd.

Mae'r patrwm termau presennol yn seiliedig ar gyfuniad hanesyddol o faterion crefyddol, academaidd, gwleidyddol a chyfreithiol. Mae gwyliau eglwysig, tymhorau prifysgol a sesiynau seneddol i gyd wedi bod yn ffactorau dylanwadol.

## CASGLIAD

Nid oes dadl addysgol gynaliadwy dros newid. Mae NASUWT yn credu mai'r agenda wirioneddol ar gyfer y rhai sy'n hyrwyddo newid yw newid amodau gwasanaeth athrawon ac yn y pen draw ymestyn y flwyddyn waith.

Mae materion llawer pwysicach y mae angen i Lywodraeth Cymru, awdurdodau addysg lleol (AALlau) ac ysgolion ganolbwyntio arnynt. Yn benodol, rhaid mynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio a chadw staff, a achosir gan lwyth gwaith gormodol a diffyg disgyblaeth ymhlith disgyblion, fod yn bryder allweddol i gyflogwyr, Llywodraeth Cymru ac undebau athrawon. Mae angen canolbwyntio ar yr adferiad yn sgil COVID, y Cwricwlwm Newydd (y mae NASUWT wedi galw dro ar ôl tro i'w ohirio) a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET). Mae newid i batrwm tymhorau ysgol sydd heb unrhyw rinweddau addysgol profedig, ac sydd â'r potensial i waethygu yn hytrach na gwella amodau gwaith athrawon, yn wyriad diangen a dylid ei wrthod.

## CYNGOR I AELODAU

Rhaid i athrawon gydnabod bod cynnig i newid patrwm y flwyddyn ysgol yn fater cenedlaethol amodau gwasanaeth. Os oes newid i fod, yna dylid gweithredu proses genedlaethol sy'n canolbwyntio ar negodi gyda'r undebau llafur cydnabyddedig, mewn fforwm cenedlaethol.

Cynghorir Aelodau i beidio â chwblhau'r arolygon a gylchredwyd gan Beaufort ar ran Llywodraeth Cymru.

Ni ddylai aelodau yn yr ysgolion peilot ar gyfer newidiadau i'r diwrnod ysgol gael eu gorfodi i 'wirfoddoli' ar gyfer gweithgareddau ychwanegol cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol. Dylent roi gwybod am unrhyw faterion i Swyddfa NASUWT Cymru ar: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

**siaradwch â ni**

rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk